**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
Senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

25 Ionawr 2024

**Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Ymateb i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Biliau Diwygio**

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Ionawr a oedd yn dwyn ein sylw at y pum argymhelliad a wnaed i'r Pwyllgor Busnes yn eich adroddiad Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Mae ymateb y Pwyllgor Busnes wedi'i atodi i'r llythyr hwn.

Cofion cynnes,

Elin Jones

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Ymateb i argymhellion y Pwyllgor Biliau Diwygio

## Mae **argymhellion 4, 5, 17, a 25** yn ymwneud ag adolygiad gweithdrefnol arfaethedig y Pwyllgor Busnes

Ymateb y Pwyllgor Busnes: Derbyn argymhellion 4, 5, 17 a 25

1. Bydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried yr argymhellion hyn wrth sefydlu cylch gorchwyl ar gyfer ei adolygiad gweithdrefnol mewn perthynas â Diwygio'r Senedd.

2. Mae'r Pwyllgor Busnes yn bwriadu ystyried cylch gorchwyl drafft yn ystod rhan olaf Tymor yr Haf 2024, unwaith y bydd sicrwydd ynghylch y newidiadau deddfwriaethol sydd i ddigwydd.

3. Ar yr amod bod y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol, rhagwelir y bydd yr adolygiad gweithdrefnol yn dechrau yn ystod Tymor yr Hydref 2024.

## **Argymhelliad 42** sy'n galw ar y Pwyllgor Busnes i ystyried cynnig sefydlu pwyllgor newydd yn y Chweched Senedd i archwilio materion sy'n ymwneud â rhannu swyddi, neu ofyn i un o bwyllgorau presennol y Senedd sydd â chylch gwaith perthnasol ymgymryd â gwaith o'r fath.

Ymateb y Pwyllgor Busnes: Derbyn

4. Bydd y Pwyllgor Busnes yn ystyried y cais a wnaed yn yr argymhelliad hwn.

5. O ran amseriad ystyriaeth y Pwyllgor Busnes, bydd yn digwydd unwaith y bydd sicrwydd ynghylch y newidiadau deddfwriaethol h.y. Tymor yr Haf 2024.